Un Llais Cymru
One Voice Wales

unity trust bank
For Businesses. For Communities. For Good.

# Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2025

Mae ceisiadau ar gyfer Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2025 nawr ar agor!

Mae'r gwobrau'n cydnabod ac yn hyrwyddo mentrau a llwyddiannau Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru. Maent yn darparu enghreifftiau o arfer gorau sy'n arddangos gwaith cynghorau lleol, gan ysbrydoli eraill a dangos gwerth ein Cynghorau anhygoel.

Rydym yn gyffrous i lansio’r broses ymgeisio eleni yn ffurfiol, a fydd yn diweddu gyda digwyddiad gwych ar Faes Sioe Frenhinol Cymru ddydd Mercher 30 Ebrill 2025 pan gyhoeddir yr enillwyr.

Bydd ennill gwobr yn rhoi eich Cyngor ar flaen y gad o ran sylw cenedlaethol. Rydym yn dweud wrth y rhai sy’n gwneud penderfyniadau a’r rhai sy’n llunio barn allweddol fel Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Archwilio Cymru, partneriaid eraill a’r cyhoedd yn gyffredinol.

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae ceisiadau gan Gynghorau llai wedi cael eu tangynrychioli – rydym yn awyddus iawn i dderbyn ceisiadau gan Gynghorau llai.

Rydym yn ddiolchgar iawn i **Unity Trust Bank**, a fydd yn brif noddwyr ein seremoni wobrwyo. Byddwn yn croesawu llawer o gynrychiolwyr a gwesteion i ddathlu’r goreuon o fewn y sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru!

- **Am y gwobrau**
  Rydym wedi gwella'r broses ymgeisio eleni. Rydym wedi gwneud y broses yn haws i Gynghorau ac wedi helpu ein panel o feirniaid i nodi'r prosiectau gorau oll ledled Cymru.

  Disgrifiwch sut mae'r gwasanaeth neu brosiect wedi ymgysylltu a bod o fudd i'r gymuned neu'r Cyngor. Peidiwch â dal yn ôl. Rydyn ni eisiau clywed gennych chi!

  Mae holl aelodau presennol Un Llais Cymru yn gymwys i ennill gwobr. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

  I gael gwybod rhagor am ein Gwobrau Cenedlaethol, ewch i'n gwefan i ddarllen Adroddiad Cynhadledd Gwobrwyo 2024: Adroddiad Cynhadledd Gwobrau 2024

Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol #GwobrauUnLlaisCymru2025

- **Categorïau'r Gwobrau**

Dyma'r categorïau eleni. Maent yn cynnwys rhai newydd:

**Menter Llywodraethu Orau**

Gallai hyn gynnwys eich Adroddiad Blynyddol neu drefniadau llywodraethu cadarn neu arloesol eraill, sy'n rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda a'i reoli'n briodol.

**Menter Iechyd Democrataidd Orau**

Byddwch yn tynnu sylw at waith i wella iechyd democrataidd y gymuned. Sut mae'r Cyngor wedi annog ymgysylltu a phleidleisio mewn etholiadau?
Sut mae'r Cyngor wedi cefnogi amrywiaeth.

**Defnydd Gorau o Adnoddau Digidol**

Mae llawer o Gynghorau yn croesawu cyfathrebiadau digidol i ddarparu datrysiadau a gwasanaethau cynaliadwy a modern. Cyfarfodydd hybrid, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gwefannau bywiog, cylchlythyrau electronig? Dywedwch wrthym am gyflawniadau eich Cyngor.

**Menter Cynaladwyedd Gorau**

Mae'r wobr hon yn cydnabod menter gynaliadwy a gyflwynwyd gan y Cyngor. Byddwch yn dangos sut mae'r fenter o fudd i'r gymuned leol ac yn cefnogi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Prosiect Amgylcheddol Gorau**

Dywedwch wrthym sut yr ydych yn annog bioamrywiaeth, yn darparu mannau diogel i fywyd gwyllt neu'n helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae Cynghorau Lleol yn gwneud gwaith gwych yn y meysydd pwysig hyn.

**Menter Treftadaeth a Diwylliant Orau**

Mae Cymru yn wlad gyfoethog o ran diwylliant. Gwlad y Gân. Cestyll, treftadaeth ddiwydiannol ac iaith hynafol. A yw eich Cyngor yn Arwr Treftadaeth?

**Menter Twristiaeth Orau**

Mae Cymru yn wlad hardd, yn llawn golygfeydd godidog, arfordir godidog a threfi, dinasoedd a phentrefi diddorol. Bydd eich cais yn amlygu menter dwristiaeth lwyddiannus y mae'r Cyngor wedi'i chyflwyno sy'n cefnogi'r economi twristiaeth leol.

**Y Fenter Ymgysylltu Cymunedol Orau**

Mae cynghorau lleol ar lawr gwlad democratiaeth leol. Mae'r wobr hon yn dathlu enghraifft o fenter ymgysylltu gymunedol lwyddiannus. Dywedwch wrthym sut mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r gymuned a sut ymatebodd y gymuned.

**Y Fenter Ymgysylltiad Ieuenctid Gorau**

Ein pobl ifanc yw ein hased cyfoethocaf. Dywedwch wrthym sut mae'r Cyngor wedi datblygu a chynnal ymgysylltiad llwyddiannus â'r bobl ifanc yn ei gymuned.

**Y Fenter Pobl Hŷn Orau**

Categori gwobr newydd eleni. Dywedwch wrthym sut mae'r Cyngor wedi datblygu a chynnal ymgysylltiad llwyddiannus ag aelodau hŷn ei gymuned.

**Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Asedau Gorau**

Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn ymgymryd â mwy a mwy o brosiectau lleol. Bydd eich cais yn amlygu gwaith Cyngor sydd wedi ymgymryd â datganoli gwasanaeth neu ased o fewn y gymuned i gynnal gwasanaeth neu ased gwerthfawr iawn.

**Y Fenter Orau i fynd i'r afael â'r Argyfwng Costau Byw**

Mae’r argyfwng Costau Byw yn parhau i effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Mae llawer o Gynghorau wedi rhoi mentrau ar waith i fynd i'r afael â'r argyfwng yn eu cymuned neu wedi darparu gwasanaeth arloesol i helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng.

Yn ogystal â’r gwobrau uchod, mae gwobr flynyddol fawreddog arbennig sy’n cydnabod y Cyngor sydd wedi darparu gwasanaeth lleol rhagorol i’r gymuned leol, fel y cytunwyd gan y panel beirniaid annibynnol. Gelwir y wobr yn **Gwasanaeth Gorau Cyngor Lleol y Flwyddyn Caerwyn Roberts**.

**Gair gan ein Cadeirydd**
Dywedodd Cadeirydd Un Llais Cymru, y Cynghorydd Mike Theodoulou: “Ar ôl llwyddiant ysgubol Gwobrau Cenedlaethol y llynedd, mae Un Llais Cymru yn edrych ymlaen yn eiddgar at y digwyddiad eleni.”

“Mae cryn dipyn o waith pwysig yn digwydd o ddydd i ddydd o fewn y sector Cynghorau Cymuned a Thref sy’n haeddu cydnabyddiaeth a dathliad. Rydym yn awyddus i roi’r cyfle i wneud hynny unwaith eto eleni ym mis Ebrill.”

“Mae’r gwobrau’n cynnig llwyfan ar gyfer hyrwyddo ac arddangos gwaith rhagorol

Cynghorau ledled Cymru. Rydym yn annog Cynghorau a'r cyhoedd i gyflwyno enwebiadau o fewn eu cymunedau. Gellir enwebu cynghorau mewn categorïau lluosog, waeth beth fo'u maint, eu poblogaeth neu eu praesept blynyddol.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu'n annibynnol yn ôl ymgysylltiad cymunedol a'r effaith ar y gymuned ehangach."